**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU CYNHALIWYD AM 10:00 AR 29 IONAWR 2025 YN CP2**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd), Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd), Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand a Bethan Williams Price

**Swyddogion DBCC yn bresennol:** Prif Weithredwr; Pennaeth Polisi a Rhaglenni; Pennaeth Iechyd Democrataidd; Rheolwr Cyllid; Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd; Rheolwr Adolygu; Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu; Rheolwr Polisi Iechyd Democrataidd; Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd

**Ymddiheuriadau:** Karen Jones (Comisiynydd)

**Amser dechrau: 10:02**
**Amser gorffen: 12:58**

**1. Datganiadau o Ddiddordeb**

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

**2. Briff y Cadeirydd**

**2.1.** Briffiodd y Cadeirydd fod Frances Duffy wedi derbyn y rôl fel Comisiynydd

DBCC ac y bydd yn cyflwyno hyfforddiant cydnabyddiaeth ariannol ar ôl cyfarfod bwrdd mis Chwefror. Disgwylir iddi gadeirio'r is-bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

**2.2.** Dywedodd y Cadeirydd fod Karen Jones i ddychwelyd i'r DU a bydd yn dechrau gweithio ochr yn ochr â'r tîm Iechyd Democrataidd i sefydlu'r EMB.

**2.3.** Briffiodd y Cadeirydd fod hysbysebu wedi dechrau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) ac y bydd yn cael ei godi yn ddiweddarach yn eitem 4. Materion sy'n codi.

**2.4.** Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cwrdd â Lisa James o LIC y bore yma. Dywedodd y Cadeirydd fod Lisa James wedi cael ei dyrchafu'n ddiweddar a bydd yn rhannu swyddi fel Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Chynllunio.

**2.5.** Briffiodd y Cadeirydd ar y nodau allweddol wrth symud ymlaen yn 2025, gan ganolbwyntio ar swyddogaethau newydd y DBCC a phwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**2.6.** Dywedodd y Cadeirydd y bydd dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg yn ymuno â chyfarfod mis Ebrill a fydd yn ymgorffori diwrnod strategaeth gyda ffocws ar y swyddogaethau newydd yn ogystal ag Adolygiadau a GAC.

**2.7.** **Cam gweithredu:** DHPO i sefydlu dyddiadau cyfarfodydd is-bwyllgor cydnabyddiaeth ariannol gyda Frances.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2024 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion sy'n codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn 2 gais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 20 Tachwedd 2024 a 22 Ionawr 2025.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cwblhau'r holl Adolygiadau Cymunedol y mae wedi'u cynnal.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** bod adleoli'r swyddfa wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. **Nodwyd** bod y costau wedi aros o dan y gyllideb, a bydd yr arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i LlC. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn ag ymateb rhanddeiliaid i adleoli'r swyddfa.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** bod Bwrdd Prosiect Gweithredu DBCC wedi cyfarfod am y tro olaf ar 15 Ionawr 2025. Mae'r gofrestr risg terfynol a'r diweddariad ffrwd waith wedi'i gynnwys gyda'r papur hwn. Mae adroddiad cau yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei rannu unwaith y bydd ar gael. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r bwrdd pontio.

**4.6.** **(Mater 5) Nodwyd** bod diweddariad cynllun gweithredol / llythyr cylch gwaith wedi'i gynnwys gyda'r papur hwn.

**4.7.** **(Mater 6) Nodwyd** bod y disgrifiad rôl ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael ei gytuno gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Mae'r rôl wedi'i hysbysebu drwy: gwefan DBCC, Byrddau yng Nghymru, Women on Boards, Swyddle, Lleol, Swyddi yng Nghymru, LGA, Guardian a'r Times. Y dyddiad cau yw 12 Chwefror 2025.

**4.8.** **Nodwyd** y bydd yr hidlo ar gyfer y Swyddog Cymorth Tîm newydd yn digwydd yr wythnos nesaf.

**5. EMB**

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad peilot Cofrestru heb gais dyddiedig 22 Ionawr 2025.

**5.2.** Cynhaliwyd trafodaeth ar effeithiau posibl y peilot ar Adolygiad y Senedd, yn benodol cynnwys etholwyr a gofrestrwyd yn ystod y cynlluniau peilot hyn yn y data ar gyfer Adolygiad nesaf y Senedd. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar liniariadau posibl.

**5.3.** Cynhaliwyd trafodaeth ar ddyfodol yr EMB a chyfansoddiad y bwrdd wrth symud ymlaen. Cynhaliwyd trafodaeth ar brinder presennol ROs ac EROs yng Nghymru. **Nodwyd** y bydd angen i'r Comisiwn gynnal ymarfer recriwtio ar gyfer yr EMB a bydd yn cael ei drafod ymhellach gyda Karen Jones.

**5.4.** Cynhaliwyd trafodaeth ar Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru (WEIP) a'i risgiau a'i oblygiadau posibl. Trafodwyd a **nodwyd** bod y Comisiwn wedi ymgysylltu â gwaith Sarah Ling i ymgynghori ar y Platfform gyda'r Comisiwn wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig i ddefnyddio rhywfaint o danwariant cyllideb ar y gwaith ymgynghori hwn. Cynhaliwyd trafodaeth ar gyfieithu/iaith datganiadau ymgeiswyr ar y WEIP a Safonau'r Gymraeg a gwefan debyg bresennol sy'n cyhoeddi datganiadau ymgeiswyr. Cynhaliwyd trafodaeth ar ymgysylltu â chyngor cyfreithiol allanol.

**5.5.** Cynhaliwyd trafodaeth ar yr angen i ymgynghori â phobl â nodweddion gwarchodedig yn ystod y gwaith sydd ar ddod ar y WEIP.

**5.6.** Cynhaliwyd trafodaeth ar lwyfannau presennol a'r cyfyngiadau a osodwyd arnynt.

**5.7.** **Nodwyd** y bydd y rheoliadau ar gyfer y WEIP yn cael eu gosod yr wythnos nesaf.

**5.8.** **Cam gweithredu:** Sarah Ling i ddrafftio papur ar ddichonoldeb y platfform ar gyfer trafodaeth fanwl yn y cyfarfod nesaf

## 6. Cydnabyddiaeth ariannol

**6.1.** Rhoddwyd y diweddariad ar Eitem 6 ar lafar.

**6.2.** Rhoddwyd diweddariad ar yr Adroddiad Etifeddiaeth Cydnabyddiaeth Ariannol a **nodwyd** y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

**6.3.** **Nodwyd** y bydd y DBCC yn cynnal cyfarfod olaf yr IRP ym mis Mawrth.

**6.4.** **Cam gweithredu:** DHPM neu DHPO i gylchredeg Adroddiad Penderfyniadau i Gomisiynwyr.

## 7. Adroddiad y Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 29 Ionawr 2025 gan yr Awdurdod Lleol a ddangosodd sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024.

**7.2.** Nododd y Comisiwn y trosglwyddiadau i sawl cyllideb lle roedd arian wedi'i drosglwyddo i dalu gorwariant amcangyfrifedig.

**7.3.** **Nodwyd**, ers i'r adroddiad gael ei ddrafftio, fod y tanwariant amcangyfrifedig ar gyfer diwedd y flwyddyn wedi newid o £123,000 i £89,000 ac, yng ngoleuni hyn, y swm arfaethedig i'w ildio yn ôl i Lywodraeth Cymru oedd £50,000 ac nid £60,000. Byddai hyn yn arwain at danwariant amcangyfrifedig o £39,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â phosibiliadau ar gyfer defnyddio rhywfaint o'r tanwariant amcangyfrifedig ar gyfathrebu ac ymgysylltu ychwanegol wrth symud ymlaen.

**7.4.** **Cytunwyd** y byddai £50,000 o ddyraniad Cymorth Grant 2024-25 y Comisiwn yn cael ei ildio'n ôl i Lywodraeth Cymru.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg DBCC dyddiedig 29 Ionawr 2025.

**8.2.** **Nodwyd** bod risg CR3 wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr Risg yn dilyn cyfarfod y Comisiwn ar 27 Tachwedd gan fod symudiad i'r llety newydd wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.

**8.3.** **Nodwyd** bod risg fach i'r Comisiwn o hyd oherwydd y mynediad anghyfyngedig i ofod swyddfa'r Comisiwn. Fodd bynnag, bydd cyfleusterau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn drwy osod mynediad darllenydd cardiau i swyddfeydd y Comisiwn yn y dyfodol agos. **Cytunwyd** y byddai'r risg

weddilliol hon yn cael ei thrin trwy ei hychwanegu at y Gofrestr Risg Gweithredol.

**8.4.** **Cytunwyd** ar y Gofrestr Risg yn amodol ar ddiwygiad a wnaed i Risg 8 a newidiwyd o ambr i goch ac mae'n parhau i fod ar statws risg presennol o 4.

**8.5.** **Nodwyd** bod Cofrestr Risg Rhaglen Waith y Dyfodol bellach wedi'i hymgorffori yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn hytrach na pharhau fel dogfen annibynnol. Nodwyd bod y risgiau cyfunol wedi'u hailrifo.

**8.6.** Cynhaliwyd trafodaeth ar Risg CR8. **Cytunwyd** i newid y risg hon o ambr i goch i ddarparu ar gyfer risgiau a goblygiadau Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru yn amodol ar aros am yr adroddiad dichonoldeb.

**8.7.** **Cytunwyd** ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol bresennol yn amodol ar y diwygiad a wnaed i risg CR8.

## 9. Adroddiad ar gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 23 Medi a 26 Tachwedd 2024

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 23 Medi 2024 a 26 Tachwedd 2024.

**9.2.** **Nodwyd** a **chytunwyd** ar yr Adroddiad.

## 10. Adolygu Adroddiad Cynnydd

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Adolygiadau dyddiedig 20 Ionawr 2025 gan yr HoPP.

**10.2.** **Nodwyd** y byddai Adroddiad Argymhellion Terfynol Adolygiad Cymunedol Sir Benfro yn cael ei gyhoeddi am 2pm. Cynhaliwyd trafodaeth ar y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng staff DBCC a chydweithwyr o Gyngor Cymuned Sir Benfro y diwrnod o'r blaen.

**10.3.** **Nodwyd** bod y Comisiwn ar hyn o bryd yn aros am benderfyniadau a gorchmynion gan LlC ar 5 Adolygiad Cymunedol.

**10.4.** **Nodwyd** bod Adolygiadau Cymunedol eraill yn cael eu cwblhau gan Awdurdodau Lleol eu hunain.

**10.5.** Cynhaliwyd trafodaeth ar y gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Cymunedol a chymhwyso'r gwersi hyn ar Adolygiadau Etholiadol.

**10.6.** Cynhaliwyd trafodaeth ar ddatblygu Polisi Maint y Cyngor wrth symud ymlaen.

**10.7.** Cynhaliwyd trafodaeth ar y Rhaglen Adolygu Etholiadol.

## 11. Adolygiad Cymunedol Sir Gaerfyrddin

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Adolygiad Cymunedol Sir Gaerfyrddin dyddiedig 09 Ionawr 2025 gan yr HoPP.

**11.2.** **Nodwyd** bod yr argymhellion newid ffiniau yn yr adroddiad yn fân.

**11.3.** **Nodwyd** mai dim ond 2 ymateb i'r ymgynghoriad a dderbyniodd Cyngor Sir Caerfyrddin, a derbyniodd y Comisiwn 0 ymateb yn ystod cyfnod yr adolygiad.

**11.4.** Cynhaliwyd trafodaeth ar gwmpas Adolygiad Cymunedol Sir Gâr.

**11.5.** **Nodwyd** a **chytunwyd** ar y newidiadau a argymhellir yn yr Adroddiad**.**

**11.6.** **Cam gweithredu:** HoPP i roi gwybod i Sir Gaerfyrddin fod y Comisiwn wedi cymeradwyo'r argymhellion.

## 12. Adolygiad y Senedd (Diweddariad Opsiynau a Chyfathrebu)

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Opsiynau Adolygiad y Senedd ar gyfer Penderfyniadau Terfynol ac Adroddiad Penderfyniadau Terfynol yn seiliedig ar argymhellion.

**12.2.** Cynhaliwyd trafodaeth ar gwmpas, ansawdd a nifer y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Rhoddwyd trosolwg o gynnwys y sylwadau gan yr RM.

**12.3.** Cynhaliwyd trafodaeth ar nifer y sylwadau sy'n sôn am enwau uniaith.

**12.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 1. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** i ddychwelyd i'r cynnig cychwynnol ar gyfer yr ardal hon oherwydd cryfder y gefnogaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.5.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 2. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** i ddychwelyd i'r cynnig cychwynnol ar gyfer yr ardal hon oherwydd cryfder y gefnogaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.6.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 3. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.7.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 4. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.8.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 5. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.9.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 6. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.10.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 7. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.11.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 8. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.12.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 9. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.13.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 10. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.14.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 11. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.15.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 12. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.16.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 13. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.17.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 14. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.18.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 15. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.19.** Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau paru ar gyfer etholaeth 16. **Cytunodd** y Comisiwn ar argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth. (Cyfeiriwch at Safon Gwneud Penderfyniadau am ragor o wybodaeth.)

**12.20.** Cynhaliwyd trafodaeth ar y polisi enwi, gyda sylw arbennig i'r enwau ar gyfer etholaethau 1 a 2. **Nodwyd** bod unffurfiaeth y polisi enwi yn seiliedig ar argymhellion a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg (WLC). Cynhaliwyd trafodaeth ar gryfder y cynigion a dderbyniwyd yn erbyn enwau lleoedd un iaith a nodwyd bod y penderfyniad i ddefnyddio enwau lleoedd un iaith yn seiliedig ar y Ddeddf a'r Polisi Enwi.

**12.21.** **Cytunwyd** ar enw Caerdydd Penarth ar gyfer etholaeth 1.

**12.22.** **Cytunwyd** ar enw Caerdydd Ffynnon Taf ar gyfer etholaeth 2.

**12.23.** Cynhaliwyd trafodaeth ar enw Etholaeth 10 ac fe'i diwygiwyd o Sir Gâr i Sir Gaerfyrddin ar gyfer yr argymhellion terfynol yn seiliedig ar argymhellion gan WLC.

**12.24.** Cynhaliwyd trafodaeth ar enw Etholaeth 12 ac fe'i diwygiwyd o Merthyr Cynon Taf i Pontypridd Cynon Merthyr ar gyfer yr argymhellion terfynol. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar gryfder y gynrychiolaeth i gynnwys Pontypridd yn yr enw, er gwaethaf cefnogaeth i'r enw blaenorol yn ystod y cyfnod ymgynghori diwygiedig.

**12.25.** Cynhaliwyd trafodaeth ar enw Etholaeth 14 ac fe'i diwygiwyd o Mynwy Torfaen i Sir Fynwy Torfaen ar gyfer yr argymhellion terfynol yn seiliedig ar gryfder y gynrychiolaeth a chynrychiolaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

**12.26.** Cynhaliwyd trafodaeth ar enw Etholaeth 16 a **chytunwyd** i gadw'r cysylltnodau yn enw Pen-y-bont Bro Morgannwg er gwaethaf sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn awgrymu eu dileu. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar argymhellion a wnaed gan y WLC.

**12.27.** Cynhaliwyd trafodaeth ar amserlen gyhoeddi Adroddiad Terfynol y Senedd.

**12.28.** Cynhaliwyd trafodaeth ar gynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer Adroddiad Terfynol y Senedd.

**12.29.** **Nodwyd** mai'r cam nesaf ar Adroddiad Terfynol y Senedd yw cyfieithu.

**12.30.** Briffiodd y CEM ar Gyfathrebu Adolygiad y Senedd hyd yn hyn. **Nodwyd** bod llawer o'r ymgyrch yn cael ei rheoli gan Media Angel, a oedd yn cynnig gwerth mawr am eu gwaith. **Nodwyd** bod sylw y cyfryngau wedi bod yn dda iawn, gydag uwch staff yr Ysgrifenyddiaeth wedi cael eu cyfweld gan yr holl brif

ddarlledwyr yng Nghymru. **Nodwyd** bod yr holl bapurau newydd mawr yng Nghymru wedi ymdrin ag Adolygiad y Senedd.

**13. 2025 ERP – Polisi ac Ymarfer**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i ERP 2025 – Adroddiad Polisi ac Ymarfer dyddiedig 22 Ionawr 2025 gan yr HoPP.

**13.2.** **Cytunwyd** ar yr Adroddiad.

**13.3.** Cynhaliwyd trafodaeth ar ddyraniad y Comisiynydd ar gyfer y Rhaglen Adolygu Etholiadol. **Cytunwyd** i ailddyrannu Comisiynwyr i feysydd lle maent eisoes wedi cwblhau Adolygiadau Cymunedol er mwyn defnyddio profiad ac arbenigedd orau.

**14. Calendr Digwyddiadau**

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau a **chytunwyd** arno.

**15. Unrhyw fusnes perthnasol arall**

**18.1** **Nodwyd** y bydd yr hyfforddiant gyda Chadeirydd IRPW yn cael ei gynnal ar ôl cyfarfod mis Chwefror.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 26 Chwefror 2025